

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
Cynrychiolydd Gofalwyr Di-dâl (Oedolion)
Datganiad o Ddiddordeb

ENW	
CYFEIRIAD	
FFÔN	E-bost

Hoffem i chi ddisgrifio'ch sgiliau a'ch profiad isod. Cyfeiriwch at y Proffil Rôl a/neu ddogfennau aelodaeth eraill a ddarperir. Atebwch bob cwestiwn. Anfonwch ffurflenni cais wedi'u llenwi i CHristopher.Ball@wales.nhs.uk erbyn 31 Hydref 2025

Rydym yn chwilio am bobl all ddefnyddio eu profiad presennol o fod yn ofalwr di-dâl yng Nghaerdydd a'r Fro, fydd yn eu helpu i gyflawni eu rôl ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro.
Cadarnhewch eich bod yn ofalwr di-dâl sy'n byw yng Nghaerdydd neu Fro Morgannwg.
Amlinellwch eich profiad o'r rôl ofalu a sut byddech yn ei ddefnyddio wrth gyflawni'r rôl hon.

Rydym yn chwilio am bobl sy'n deall anghenion cymorth ymarferol gofalwyr Caerdydd a'r Fro.
Amlinellwch eich dealltwriaeth o rai o brif anghenion cymorth ymarferol gofalwyr di-dâl Caerdydd a'r Fro.

Rydym yn chwilio am bobl fydd yn gallu rhoi barn gynrychioladol ar fod yn ofalwr di-dâl, ac sy'n meddu ar wybodaeth eang am ofalwyr di-dâl Caerdydd a'r Fro.
Amlinellwch sut gallech roi barn gynrychioladol ynghylch anghenion ystod eang o ofalwyr?

Rydym yn chwilio am bobl sy'n gallu cael gafael ar farn gofalwyr di-dâl eraill drwy grwpiau cymorth, fforymau, rhwydweithiau gofalwyr ac ati, ac sy'n gallu trosglwyddo eu barn ac wedyn rhoi adborth i ofalwyr di-dâl. <i>Amlinellwch sut byddech yn gwneud hyn.</i> <i>Nodwch os ydych yn aelod o sefydliad lleol neu genedlaethol megis elusen, grwp lleol, Cyngor Iechyd Cymunedol ac ati.</i>		
Rydym yn chwilio am bobl sy'n meddu ar sgiliau cynnwys a dylanwadu. <i>Disgrifiwch yr hyn rydych wedi ei wneud yn y maes hwn. Ar bwy oeddech chi'n dylanwadu, neu bwy oeddech chi'n ceisio'u cynnwys, a pham? Sut defnyddioch chi'r sgiliau? Beth oedd y canlyniad?</i>		
Enwebiadau Rhowch enwau a manylion cyswllt dau berson fyddai'n fodlon eich argymhell ar gyfer y rôl hon.		
Enw:	Manylion Cyswllt	Cyd-destun eu gwaith gyda'r ymgeisydd

Cytundeb Rhannu Data ar gyfer rhannu data i gefnogi recriwtio

Mae'r ffurflen hon i gadarnhau eich bod yn cydsynio ar gyfer **Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg** rhannu'r Mynegiad hwn o ddiddordeb a chyfeiriadau cysylltiedig â **aelodau o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a'r Tîm Cefnogi (RPB)** at ddibenion recriwtio sy'n gysylltiedig â rôl Cynrychiolydd Gofalwyr Di-dâl. .

Byddwn yn rhannu'r wybodaeth rydych chi'n ei rhannu yn y Datganiad Hwn o Ddiddordeb a chyfeiriadau gyda'r aelodau sy'n ymwneud â recriwtio'r rôl hon .

Rydym am rannu'r data hwn i sicrhau y gallwn gynnwys aelodau o'r BPRh gyda recriwtio gan y bydd partneriaid yn cael eu cynnwys yn y broses ddethol a'r panel cyfweld.

Os hoffech dynnu eich caniatâd yn ôl, e-bost Christopher.ball@wales.nhs.uk

Cadarnhewch a ydych yn cydsynio i ni rannu'r wybodaeth yn y modd hwn.

Ydw – rwy'n cydsynio i **Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg** rhannu'r Datganiadau o Ddiddordeb hwn a chyfeiriadau cysylltiedig ag **aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a'r Tîm Cefnogi (BPRh)** at ddibenion recriwtio sy'n gysylltiedig â rôl Cynrychiolydd Gofalwyr Di-dâl.

Nac ydw – nid wyf yn cydsynio i **Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg** rhannu'r Datganiadau o Ddiddordeb hwn a chyfeiriadau cysylltiedig ag **aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a'r Tîm Cefnogi (BPRh)** at ddibenion recriwtio sy'n gysylltiedig â rôl Cynrychiolydd Gofalwyr Di-dâl.

Enw:

Dyddiad: